Gwasanaethau Tai Strategol
Perfformiad a Nodau 2007-2009

Gwasanaeth Tai Strategol - Ein Nod

Gwella safon ac argaeledd tai ar gyfer holl drigolion y Fwrdeistref.

Yn 2007-08, gwnaethom gynnydd arwyddocaol mewn sawl maes gwasanaeth allweddol.

O'n 82 maes a dargedwyd o ran gweithredu mesurwyd bod 61 (74%) ar y llwybr cywir, roedd 18 (21%) wedi crwydro ychydig, a dim ond 3 (4%) oedd wedi crwydro'n arwyddocaol, ac roeddem yn fodlon gyda'r rhesymau tros hyn.

Mae'r graff isod yn egluro'n perfformiad.

Perfformiad Cyffredinol Gwasanaethau Tai Strategol 2007- 2008



Sut y gwnaethom ni berfformio yn 2007 - 2008?

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

DIGARTREFEDD

Rhwng 1af Ebrill 2007 a 31ain Mawrth 2008:

- Defnyddiodd 1900 o gleientiaid y gwasanaeth digartrefedd yn Wrecsam i gael cymorth a chyngor.
- Cyflwynodd 743 o bobl eu hunain yn ffurfiol
- Derbyniwyd 242 (32%) yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol yn ôl y ddeddfwriaeth, o'i gymharu â 763 o bobl yn 2006-07.
- Derbyniodd 97.5 % o'r cyflwyniadau digartref benderfyniad o fewn 33 diwrnod gwaith (91% yn 2006-2007)
- Trwy ymyrraeth y tîm Atal Digartrefedd, llwyddwyd i osgoi 264 achos o ddigartrefedd.
- Defnyddiwyd 15 uned o lety dros dro yn y sector preifat.
- Dim ond un teulu fu mewn llety Gwely a Brecwast o'i gymharu â 31 o deuluoedd yn 2006-2007.
- Bu 87 o bobl mewn llety Gwely a Brecwast (o'i gymharu â 128 yn 2006-2007)
- Nifer cyfartalog y dyddiau i bob teulu digartref eu treulio mewn llety dros dro oedd 61 diwrnod, o'i gymharu â 59 yn 2006-2007.
- Lleihawyd swm yr arian a wariwyd ar lety Gwely a Brecwast gan £96,000

STRATEGAETH A SAFONAU TAI

Bu'r cais i ariannu'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2009/10 yn llwyddiannus gyda £10.7 miliwn wedi ei glustnodi ar ei gyfer. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu llety ar gyfer cleientiaid sydd ag anableddau corfforol a dysgu, llety i bobl hyn ac i gwblhau unedau o dai fforddiadwy. Mae hyn yn welliant arwyddocaol ar y £844,000 a ddyfarnwyd yn flaenorol.

Parhaodd y gwaith i wella safonau yn y sector preifat:

- Archwiliwyd 91 Ty Amlfeddiannaeth (HMO's) yn 2007-08, o'i gymharu â 60 yn 2006-07
- Adnabuwyd peryglon mewn 25 o dai yn ystod y cyfnod adrodd, dan y system archwilio newydd
- Cartrefwyd 15 teulu o fewn y Fwrdeistref Sirol mewn eiddo a fu'n wag am fwy na 6 mis, o'i gymharu â 10 yn 2006-2007

CEFNOGI POBL

Comisiynwyd pedwar gwasanaeth newydd yn ystod 2007-2008:

- Cynllun cefnogi Pobl H?n ar gyfer pobl yn eu cartrefi eu hunain - y cynllun 'Opsiynau'
- Cynllun cefnogi ar gyfer Menywod sy'n byw yn eu tai eu hunain sy'n dioddef Cam-drin Domestig
- Cynllun cefnogi ar gyfer pobl Ddigartref a osodwyd gan y tîm digartrefedd mewn llety gwely a brecwast ac eiddo sector preifat sydd ar brydles.
- Cynllun cefnogi i helpu pobl sydd â phroblemau cam-ddefnyddio sylweddau sydd mewn perygl o droseddu i gynnal eu llety

Rydym nawr wedi cefnogi 45 o gynlluniau tai â chefnogaeth trwy Cefnogi Pobl, ac mae 4186 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi elwa yn ystod 2007-2008.

ADNEWYDDU ARDAL

Yn 2007-2008 dyfarnwyd £1.8m ar ffurf taliad Grant Cyfalaf Penodol. Dyma'r dyfarniad uchaf ond un yng Nghymru. Parhaodd y gwaith o adnewyddu eiddo mewn tair ardal adnewyddu:

- Smithfield / Hightown- cwblhawyd 142 eiddo
- Brymbo / Broughton - parhaodd y gwaith
- De Orllewin Wrecsam - cwblhawyd 27 eiddo

Hefyd gwnaed gwelliannau i ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir i gleientiaid ynglyn â'r cynlluniau, yn dilyn adborth gan gyn-gleientiaid i'r cynlluniau.

ADNEWYDDU TAI

Bu adolygiad o'r broses o asesu ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ac o ganlyniad newidiwyd sawl peth i wella perfformiad yn y maes hwn. Yn ystod 2007 - 2008:

- Dyfarnwyd 127 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Nifer cyfartalog y dyddiau a gymerwyd i drosglwyddo Grant Cyfleusterau i'r Anabl oedd 457 diwrnod
- Nifer cyfartalog y dyddiau a gymerwyd i gyflawni addasiad ar gyfer tenant i'r Awdurdod Lleol pan nad yw Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei ddefnyddio oedd 211 diwrnod
- Nifer cyfartalog o ddyddiau calendr a gymerwyd i wneud gwaith addasu cost isel (mân-addasiadau) mewn tai preifat oedd 168 diwrnod.

Yn ychwanegol i hyn:

- Elwodd 1238 o bobl o dderbyn mân-addasiadau
- Derbyniodd 175 o bobl Gymorth Atgyweirio Cartrefi
- Derbyniodd 143 o bobl gymorth drwy gynlluniau grant eraill

Ein Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer 208-2010 yw:

- Lleihau'r ddibyniaeth ar lety gwely a brecwast trwy ddatblygu llety dros dro amgen a gwell.
- Datblygu cynlluniau pellach i atal Digartrefedd
- Parhau i wella oes ffabrig allanol y tai yn yr ardaloedd adnewyddu ardal i safon o 30 mlynedd (Targed o 60 wedi eu cwblhau erbyn Mawrth 2009)
- Paratoi'r holl wasanaeth i gael ei asesu yn erbyn y model Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmer (y Marc Siarter gynt)
- Marchnata'r cynllun 'Houseproud' i gynyddu cyfranogiad
- Gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Addasiadau
- Datblygu a rhoi strategaeth ar waith ar gyfer gwella Tai Amlfeddiannaeth
- Datblygu a rhoi cynllun gweithredu ar waith ar dai fforddiadwy
- Datblygu a gweithredu strategaeth ymglymu defnyddiwr gwasanaeth ar gyfer Cefnogi Pobl
- Cwrdd â'r gweithredoedd a nodir yng Nghynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2008-2009
- Datblygu lloches nos ar gyfer y rhai hynny sy'n cysgu allan

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglyn â materion neu wasanaethau Tai, cysylltwch â: Gwasanaethau Tai, Ffordd Rhuthun, Wrecsam LL13 7TU
Teleffon: 01978 315300 E-bost: housing@wrexham.gov.uk
Ein Horiau Agor yw: Dydd Llun - Dydd Gwener 8.30a.m. - 5.30p.m